Cofebion ar feddi

Mae tiroedd ein mynwentydd ar agor i bawb, p'un a ydych yn ymweld â bedd anwylyn, mynychu gwasanaeth neu'n dod i dreulio ychydig o amser tawel. Rydym am gynnal y safonau ymddangosiad uchel y mae pobl yn ei ddisgwyl o'n mynwentydd a gofynnwn i chi ein helpu gyda hyn.

Cadwch feddi mor dwt a thaclus ag sy'n bosib, yn unol â'n **Rheoliadau Mynwentydd ac Amlosgfeydd.**

Mae croeso i chi osod **blodau, planhigion bach mewn potiau neu dorchau coffa** ar y garreg goffa awdurdodedig, neu ar y lle gwag ar gyfer y garreg goffa (hyd at 30cm).

Sylwch na chaniateir unrhyw gofeb arall ar unrhyw ran o'r bedd.

Ni allwn ganiatáu cofebion nac addurniadau di-awdurdod ar feddi. Mae hyn yn cynnwys **ffensys bach, cyrbau** (a ganiateir yn yr adrannau hŷn yn unig), **goleuadau, gwydr, teyrngedau porslen, clychau gwynt, cerrig llyfn, gro, coed, baddonau adar na byrddau adar.**
Rydym yn cadw'r hawl i dynnu eitemau o'r fath, yn ogystal ag unrhyw beth sydd wedi cael ei esgeuluso, sy'n ddiolwg, wedi gordyfu neu sy'n ymyrryd ar feddi cyfagos.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ffoniwch 01492 577733 neu anfonwch e-bost at:
GwasanaethauProfedigaeth@conwy.gov.uk

Os oes bedd yn torri'r rheoliadau

Os oes bedd yn torri'r Rheoliadau Mynwentydd ac Amlosgfeydd, byddwn yn:

1. Hysbysu deiliad y bedd trwy gysylltu â'r cyfeiriad hysbys diwethaf, gan roi mis o rybudd iddyn nhw dynnu'r eitemau.
2. Tynnu'r eitemau ar ôl mis
3. Gwaredu eitemau megis fframiau, ffensys a gro ar unwaith
4. Storio eitemau sydd â gwerth sentimental am fis, i'w casglu
5. Gwaredu unrhyw eitemau nad ydynt wedi'u casglu ar ôl mis

Os ydych yn cael llythyr gennym, siaradwch gydag un ohonom os oes gennych bryderon. Os ydych yn dal yn anfodlon, mae gennych hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwn trwy'r broses Cwynion Corfforaethol.

Gallwch ysgrifennu at:
Uned Gwynion
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

e-bost i cwynion@conwy.gov.uk
neu ffonio 01492 576070
(caiff galwadau i'r rhif hwn eu recordio)

Cerrig Beddi

Os ydych yn berchennog cofrestredig, dylech fod yn ymwybodol eich bod yn gosod cerrig beddi ar eich menter eich hun ac mai chi sy'n gyfrifol am gadw cerrig beddi mewn cyflwr da a diogel. Ni all y Cyngor fod yn gyfrifol am unioni unrhyw gerrig beddi sydd wedi'u difrodi neu sydd wedi disgyn.

Dylech ddeall ein bod yn cadw'r hawl i ail-osod, symud, gosod mewn rhes neu newid safle unrhyw garreg fedd yn ôl yr angen.